Agenda – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr – Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 14 Mehefin 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

76(v3)

1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

(15 munud)

Gweld y Cwestiynau

3 Cwestiynau Amserol

(0 munud)

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.

4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

5 Dadl yn ceisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil Arfaethedig Aelod – Y Bil Awtistiaeth (Cymru)

(60 munud)

NDM6304 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.91:

Yn cytuno y caiff Paul Davies AC gyflwyno Bil i roi effaith i'r wybodaeth a gaiff ei chynnwys yn y Memorandwm Esboniadol a gyflwynwyd ar 4 Mai 2017 o dan Reol Sefydlog 26.91A.

6 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)

(60 munud)

NDM6311

Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)
Hefin David (Caerffili)
Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)
Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)
Mark Isherwood (Gogledd Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn llongyfarch staff GIG Cymru am drin a gwella'r nifer uchaf erioed o gleifion â Hepatitis C.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gadarnhau ei hymrwymiad i ddyddiad dileu Hepatitis C Sefydliad Iechyd y Byd o 2030.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried canllawiau gweithredu newydd er mwyn cefnogi'r GIG i weithio tuag at ddileu Hepatitis C yng Nghymru.

7 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu: Y Darlun Mawr: Safbwyntiau cychwynnol y Pwyllgor ar Ddarlledu yng Nghymru

(60 munud)

NDM6329 Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 'Y Darlun Mawr – Safbwyntiau cychwynnol y Pwyllgor ar Ddarlledu yng Nghymru', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Chwefror 2017.

2. Yn cytuno y dylai S4C, wedi derbyn argymhelliad y pwyllgor i'r perwyl hwn, osod adroddiadau ariannol a datganiadau archwiliedig o gyfrifon gerbron y Cynulliad.

Dogfennau ategol
Ymateb Llywodraeth Cymru
Ymateb y BBC
Ymateb ITV (Saesneg yn unig)
Ymateb Ofcom
Ymateb S4C

8 Cyfnod pleidleisio

9 Dadl Fer

(30 munud)

NDM6328 Jeremy Miles (Castell-nedd)

Cymru yn y Byd – meithrin cysylltiadau rhyngwladol Cymru.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 20 Mehefin 2017